Mythau Iechyd a Diogelwch Mawr



Y myth Mae deddfau iechyd a diogelwch yn golygu bod yn rhaid i bobl sy'n mynd i gyngherddau wisgo plygiau clust

Y gwirionedd Nac oes, nid oes rhaid i gynulleidfaoedd wisgo plygiau clust! Nhw sy'n dewis mynd i gyngherddau swnllyd. Nod y deddfau yw diogelu pobl sy'n gorfod gweithio mewn lleoedd swnllyd.

Mae staff cyngherddau yn wynebu mwy o risg o ddioddef niwed i'w clyw gan eu bod yn gweithio mewn amgylchedd lle ceir lefelau uchel o sŵn yn rheolaidd. Dyna pam y dylai cyflogwyr sicrhau eu bod yn cael eu diogelu - gall hyn olygu gwneud rhywbeth mor syml â symud staff i ffwrdd o'r ardaloedd mwyaf swnllyd, neu ddarparu plygiau clust addas.

Mae colli clyw yn gyflwr y gellir ei atal, felly mae'n bwysig diogelu pobl er mwyn eu helpu i fwynhau gyrfaoedd hir a llwyddiannus. Nod y deddfau yw rheoli risgiau gwirioneddol i weithwyr - nid lleihau mwynhad cyngherddau.